

# Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru 2018

Enillwyr Rhanbarthol 2018



[businesswales.gov.wales/cy/zones/tourism](http://businesswales.gov.wales/cy/zones/tourism)

@CroesoCymruBus

#NTACymru18



**Mae'n bleser gennyf  
eich croesawu i Wobrau  
Twristiaeth Cenedlaethol  
Cymru 2018.**

**Llongyfarchiadau  
i'r holl enillwyr.**

Caiff Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru eu trefnu gan Croeso Cymru a'u cynnal yng Ngwesty Hamdden y Celtic Manor. Eu nod yw dathlu'r gorau ym maes twristiaeth yng Nghymru – gan dynnu sylw at fusnesau twristiaeth Cymru a dathlu llwyddiannau'r diwydiant. Mae'r Gwobrau hefyd yn creu cyfle i hoelio sylw ar dwristiaeth a gwobrwyo'r rhai ohonoch sy'n gweithio'n ddiflino i roi croeso a phrofiadau i ymwelwyr a fydd yn eu cymell i ddychwelyd dro ar ôl tro.

Mae diwydiant twristiaeth Cymru mewn sefyllfa gref a gallwn yn sicr deimlo'n hyderus ynghylch y dyfodol. Mae safon ac amrywiaeth y busnesau sydd ar y rhestr fer heno yn tystio i hyn.

Llongyfarchiadau i bob un ohonoch sydd wedi'ch dewis yn enillwyr rhanbarthol ac sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol. Roedd safon y ceisiadau'n eithriadol o uchel a gwych yw gweld ein diwydiant yng Nghymru yn mynd o nerth i nerth. Yn sicr mae'r rhestr o enillwyr rhanbarthol yn rhoi cipolwg o'r gorau y gall Cymru ei gynnig.

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod yn cymryd amser i gystadlu ond gall yr ymdrech dalu ar ei ganfed a gall fod yn fuddiol iawn i'r tîm ac i forâl staff. Bydd modd i lawer ohonoch ddweud erbyn diwedd y noson mai chi yw'r 'gorau yng Nghymru'. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch a gobeithiaf y cewch noson hwyliog a llwyddiannus.



Yr Arglwydd Elis-Thomas AC  
Y Gweinidog Diwylliant,  
Twristiaeth a Chwaraeon



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Gweithgareddoedd Gorau



01



02

## Canolbarth Cymru

### 01 Eisiau Canwio?

Eisiau canwio? Ar fferm fach deuluol organig mewn man delfrydol ar lan Afon Gwy yn y Gelli, rydym yn Llogi Canws, yn Trefnu Teithiau Canws a Thywysyddion ar Afon Gwy.

[www.canoehire.co.uk](http://www.canoehire.co.uk)

## Gogledd Cymru

### 02 Digwyddiadau Always Aim High – Camu i'r Copa

Camu i'r Copa yw trefnydd digwyddiadau gorau Cymru a'r unig gwmni gwirioneddol Gymreig sy'n trefnu triathlonau a rasys rhedeg a beicio o safon byd yn gyfangwbl yng Nghymru.

<http://alwaysaimhighevents.com>



03



04

## De-ddwyrain Cymru

### 03 Loving Welsh Food

Mae Loving Welsh Food yn cynnig teithiau a saffaris bwyd, gweithdai coginio a chyflwyniadau o fwyd o Gymru yng Nghaerdydd a'r Fro.

<https://lovingwelshfood.uk/>

## De-orllewin Cymru

### 04 Pembrokeshire Falconry

Profïadau ac arddangosfeydd penigamp gydag adar ysglyfaethus yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

[www.pembrokeshire-falconry.co.uk](http://www.pembrokeshire-falconry.co.uk)


# Yr Atyniaid Gorau



05



07



06



08

## Canolbarth Cymru

### 05 Labrinth y Brenin Arthur

Hwylwch trwy len hudol rhaeadr tanddaearol i fyd o fytholeg sy'n llawn dreigiau, cewri, brwydrau ffyrnig a Brenin Arthur ein chwedlau.

[www.kingarthurslabyrinth.co.uk](http://www.kingarthurslabyrinth.co.uk)

## Gogledd Cymru

### 06 Zip World

Agorodd Zip World yn 2013 gyda Velocity, y weiren wib gyflymaf yn y byd. Nawr gall gwesteion 3 oed a throsodd brofi 9 antur bob tywydd mewn 3 lleoliad hyfryd yn y Gogledd.

[www.zipworld.co.uk](http://www.zipworld.co.uk)

## De-ddwyrain Cymru

### 07 Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd

Dewch i Ddŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd i gael yr adrenalin i lifo.

<https://www.ciww.com>

## De-orllewin Cymru

### 08 Folly Farm

Mae Folly Farm yn 30 oed yn 2018. Ar safle hen fferm odro, mae 500,000 o bobl yn ymweld â Folly Farm bob blwyddyn erbyn hyn. Cafodd ei henwi'n ddiweddar fel y Sw orau ond 9 yn y byd gan Tripadvisor.

[www.folly-farm.co.uk](http://www.folly-farm.co.uk)





09



11



10



12

### Canolbarth Cymru

#### 09 Caemorgan Mansion

Gwesty moethus 5 seren yw Caemorgan ar lannau Bae Ceredigion.

[www.caemorgan.com](http://www.caemorgan.com)

### Gogledd Cymru

#### 10 Manorhaus Townhaus Llangollen

Bwyd da i'r rheini sy'n mwynhau coginio modern wedi'i baratoi'n ffres gyda chynhwysion a chynnyrch lleol, mewn lle braf lle cewch ymlacio gyda staff gofalgar ond hyd braich i weini arnoch.

[www.manorhaus.com](http://www.manorhaus.com)

### De-ddwyrain Cymru

#### 11 The Greyhound Inn

Tafarn bentref draddodiadol o'r 18fed ganrif, yng nhefn gwlad Sir Fynwy. Dewch am fwyd, am lety neu am lasaid fach, bydd wastad croeso ichi.

[www.greyhound-inn.com](http://www.greyhound-inn.com)

### De-orllewin Cymru

#### 12 Roch Castle

Ar graig drawiadol a dramatig, mae Castell Roch yn dyddio o'r 12fed ganrif ac yn cynnig llety moethus, brecwastau uchel eu clod a golygfeydd panoramig o Fae Sain Ffraid a'r Preseli.

[www.rochcastle.com](http://www.rochcastle.com)

# Carafanio, Gwersylla a Glampio Gorau



13



14

## Canolbarth Cymru

### 13 Cosy Under Canvas

Glampio moethus dan gysgod coed – Noddfa o lonyddwch ond hefyd cyffro i'r anturus, mae ein Cromennau'n berffaith ar gyfer cyplau cariadus, gwyliau i'r teulu ac ar gyfer grwpiau.

[www.cosyundercanvas.co.uk](http://www.cosyundercanvas.co.uk)

## Gogledd Cymru


### 14 Llanfair Hall

Glampio pob tywydd o'r safon uchaf, gyda'ch stafell ymolchi'ch hun, gwasanaeth personol penigamp, golygfa odidog o Eryri a gwyliau yng ngolau'r sêr.

[www.llanfairhall.com](http://www.llanfairhall.com)



15



16

## De-ddwyrain Cymru

### 15 Parkdean Resorts Trecco Bay

Dewch i Trecco Bay am hwyl diddiwedd i'r teulu, gyda chlybiau plant, ein pwll nofio dan do, bowllo, bingo, adloniant byw a llawer mwy!

[www.parkdeanresorts.co.uk](http://www.parkdeanresorts.co.uk)

## De-orllewin Cymru

### 16 Celtic Holiday Parks

Tri pharc unigryw yn Sir Benfro – Parc Gwledig Croft, Noble Court sydd hefyd yn gartref i'r brand glampio moethus "Celtic Escapes" a Meadow House – bob un â'i nodweddion a'i dirwedd neilltuol ei hun.

[www.celticholidayparks.com](http://www.celticholidayparks.com)






17



19



18



20

### Canolbarth Cymru

#### 17 Twristiaeth Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'r Parc Cenedlaethol yn lle ardderchog i fynd amdani a bod yn gorfforol. Nid rhyw warchodfa y tu ôl i ffens mohoni – mae'n dirwedd byw ac yn fywoliaeth, a fydd yn porthi ochr anturus eich cymeriad.

[www.breconbeacons.org](http://www.breconbeacons.org)

### Gogledd Cymru

#### 18 Zip World

Agorodd Zip World yn 2013 gyda Velocity, y weiren wib gyflymaf yn y byd. Nawr gall gwsteion 3 oed a throsodd brofi 9 antur bob tywydd mewn 3 lleoliad hyfryd yn y Gogledd.

[www.zipworld.co.uk](http://www.zipworld.co.uk)

### De-ddwyrain Cymru

#### 19 Twristiaeth Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena

Gan ddenu 7 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, rhanbarth Dyffryn Gwy yw un o'r cyrchfannau pwysicaf i ymwelwyr, ac mae Twristiaeth Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena yn gweithio i wella'r profiad a hygyrchedd i'r ardal.

[www.wydeantourism.co.uk](http://www.wydeantourism.co.uk)

### De-orllewin Cymru

#### 20 Fishguard Bay Welcome (FBW)

FBW – Sut bynnag y cyrhaeddwch chi, rydych chi ar ein gorwel ni.

[www.facebook.com/fishguardbaywelcome](http://www.facebook.com/fishguardbaywelcome)





21



23



22



24

### Canolbarth Cymru

#### 21 Gŵyl y Dyn Gwyrdd

Mae Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn fwy na gŵyl gerdd. Mae hefyd yn ŵyl o lenyddiaeth, chwerthin, celf, gwyddoniaeth a direidi – a'r cyfan yng nghysgod bryniau hardd Bannau Brycheiniog.

<http://www.greenman.net/>

### Gogledd Cymru

#### 22 Underneath the Arches

Underneath the Arches yw dathliad blynyddol Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, Wrecsam. Daw ymwelwyr o bob cwr o Brydain i weld y sioe oleuadau a'r tân gwyllt.

[www.facebook.com/underneaththearches](http://www.facebook.com/underneaththearches)

### De-ddwyrain Cymru

#### 23 Visit Cardiff (UCLF'17)

Ffeinal Cyngghair Pencampwyr UEFA 2017 oedd y digwyddiad mwyaf erioed ym myd y campau i ddod i Gymru. Croesawyd dros 314,000 o ymwelwyr i Gaerdydd ar y diwrnod.

[www.visitcardiff.com](http://www.visitcardiff.com)


### De-orllewin Cymru

#### 24 Long Course Weekend


Mewn cwta 8 mlynedd, mae'r digwyddiad hwn bellach yn denu dros 32,000 o bobl o 32 o wledydd i Gymru, gan arwain at 160,000 o nosweithiau aros, a chaiff ei ddarlledu i ragor nag 800 miliwn o gartrefi mewn 100 o wledydd.

[www.longcourseweekend.com](http://www.longcourseweekend.com)

# Gwesty Gorau




25



27



26



28

## Canolbarth Cymru

### 25 Llangoed Hall Hotel

Gwesty gwledig hanesyddol pum seren yw Llangoed Hall, ger harddwch Afon Gwy yn Llyswen ger Aberhonddu.

<http://www.llangoedhall.co.uk>

## Gogledd Cymru

### 26 Dunoon Hotel

Mae Dunoon yn ymhyfrydu mewn bod yn wahanol; yn lluniaidd, diymffrost, ffurfiol ond agosatoch, o'r hen fyd yn hytrach nac o fwrlwm y newydd.

[www.dunoonhotel.co.uk](http://www.dunoonhotel.co.uk)

## De-ddwyrain Cymru

### 27 Hilton Caerdydd

Mae'r Hilton Caerdydd yng nghalon y ddinas ac yn fan cychwyn gwych ar gyfer crwydro'r briffddinas.

[www.hilton.com/cardiff](http://www.hilton.com/cardiff)

## De-orllewin Cymru

### 28 St Brides Spa Hotel

Ar ben clogwyn uwchlaw Saundersfoot ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae St Brides Spa Hotel yn ddihangfa i lonyddwch, gyda thŷ bwyta cyfoes, spa uchel ei glod ac ystafelloedd gwely llawn steil.


[www.stbridesspahotel.com](http://www.stbridesspahotel.com)



29



31



30



32

### Canolbarth Cymru

#### 29 Ynyshir Restaurant and Rooms

Y cynhwysion yw'r sail. Y blas yw'r sbardun. Y bras yw'r tanwydd. Y cig yw popeth.

[www.ynyshir.co.uk](http://www.ynyshir.co.uk)

### Gogledd Cymru

#### 30 Manorhaus Ruthin

Bwyd da i'r rheini sy'n mwynhau coginio modern wedi'i baratoi'n ffres gyda chynhwysion a chynnyrch lleol, mewn lle braf lle cechw ymlacio gyda staff gofalgar ond hyd braich i weini arnoch.

[www.manorhaus.com](http://www.manorhaus.com)

### De-ddwyrain Cymru

#### 31 The Whitebrook Restaurant with Rooms

Ym musnes teuluol The Whitebrook Restaurant with Rooms yn Nyffryn Gwy, mae popeth ar fwydlen Chris Harrod, cogydd seren Michelin a pherchennog, yn cynnwys cynhwysion gwyllt neu leol.

[www.thewhitebrook.co.uk](http://www.thewhitebrook.co.uk)

### De-orllewin Cymru

#### 32 Beach House


O dan arweiniad y Prif Gogydd Hywel Griffith, mae Beach House, Bwyty AA y Flwyddyn yng Nghymru, yn cynnig profiad bwyta amheuthun yng ngolwg y Three Cliffs Bay bydenwog.

<http://beachhouseoxwich.co.uk/>





33



35



34



36

### Canolbarth Cymru

#### 33 Plas Dinam County House

Mae Plas Dinam yn blasty teuluol eithriadol yn y Canolbarth gyda 15 ystafell wely, ar gyfer dathliadau, gwyliau a phriodasau.

[www.plasdinamcountryhouse.co.uk](http://www.plasdinamcountryhouse.co.uk)

### Gogledd Cymru

#### 34 Gors-lŵyd Cottage

... Encilfa yn y Mynyddoedd ym Mhenrhyn Llŷn.

[www.welshbreak.com](http://www.welshbreak.com)

### De-ddwyrain Cymru

#### 35 Monmouthshire Cottages LLP

Busnes hunanddarpar teuluol yw Monmouthshire Cottages. Yn angerddol dros ein croeso, ein hansawdd a'n lleoliad gwbl ryfeddol yn Nyffryn Gwy.

[www.monmouthshirecottages.co.uk](http://www.monmouthshirecottages.co.uk)

### De-orllewin Cymru

#### 36 Basel Cottage Holidays

Ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae Basel Cottage Holidays â'u 5\* yn cynnig llety, teras preifat, gardd gaeddig, caeau a choedwig i'r teulu cyfan gael mwynhad pur. Mae croeso hefyd i'r ci.

[www.baselcottageholidays.co.uk](http://www.baselcottageholidays.co.uk)



## Canolbarth Cymru

### 37 Dragon UAV

Amcan Dragon UAV yw sefyll ben ac ysgwydd uwchben pawb arall yn y farchnad dronau gan gynnig amrywiaeth o gynnyrch arloesol i fusnesau Cymru.

[www.dragonuav.co.uk](http://www.dragonuav.co.uk)

## Gogledd Cymru

### 38 St George's Hotel

Profwch yr hyn y gall Llandudno ac arfordir y Gogledd ei gynnig trwy aros yn y St George's Hotel moethus 4 seren yng ngolwg Bae hardd Llandudno.

[www.stgeorgeswales.co.uk](http://www.stgeorgeswales.co.uk)



## De-ddwyrain Cymru

### 39 The Blaenafon Cheddar Company Ltd

Torrwch sleisen o Cheddar Blaenafon a dweud Mmmm.

[www.chunkofcheese.co.uk](http://www.chunkofcheese.co.uk)

## De-orllewin Cymru

### 40 Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru sy'n rheoli rhai o fannau gwyllt mwyaf gwerthfawr y rhanbarth rhwng Caerdydd ac Aberystwyth, gan gynnwys ynysoedd ysblennydd Skomer a Skokholm.

[www.welshwildlife.org](http://www.welshwildlife.org)






41



43



42



44

### Canolbarth Cymru

#### 41 Kathryn Colling – Cambria Tours Ltd/Hafan Epic Retreats Cyf

Kathryn Colling yw'r Pennaeth Datblygu Busnes yn Cambria Tours/Cambria DMC, cwmni trefnu teithiau i Gymru a Chyfarwyddwr Epic Retreats, sy'n cynnig llety a phrofiadau sydd wedi'u hysbrydoli gan chwedlau Cymru.

<http://cambriadmc.com/>

### Gogledd Cymru

#### 42 Tommy Davies – Cabanau Coed Coed-Y-Glyn

Mae'n fraint cael rhannu harddwch y wlad hon, sy'n gartref imi, â'n holl westeion.

[www.coedyglyn-logcabins.co.uk](http://www.coedyglyn-logcabins.co.uk)

### De-ddwyrain Cymru

#### 43 Rhiannon Roberts – Rhiannon Art Ltd

Artist a ddysgodd ei hun yw Rhiannon sy'n byw ym Mae Caerdydd, gan beintio golygfeydd o Gymru ag arddull ddireidus a smala. Mae hi am lenwi byd pawb â lliw trwy greu darluniau byrlymus sy'n denu'r llygaid.

[www.rhiannonart.co.uk](http://www.rhiannonart.co.uk)

### De-orllewin Cymru

#### 44 Sarah Jones – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Mae warden yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Sarah, yn helpu i warchod dros 800 erw o dir parc Gwarchodfa Natur Genedlaethol ym Mharc Dinefwr, Llandeilo, cartref buches hynafol o Wartheg Gwynion.

[www.nationaltrust.org.uk/dinefwr](http://www.nationaltrust.org.uk/dinefwr)

